



**Nyth
Nest**
Gwneud
Cymru'n
Glyd
Making
Wales
Cosy

Rhan o raglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru
Part of the Welsh Government Warm Homes programme



Cynllun Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru

Meini Prawf Iechyd
Newydd - Nodyn i
Bartneriaid



Meini Prawf Iechyd Newydd - Nodyn i Bartneriaid

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella mesurau effeithlonrwydd ynni a mynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy fuddsoddi yn ein Cynllun Cartrefi Clyd.

Mae cynllun Nyth yn sicrhau y gall deiliaid tai yng Nghymru gael cyngor diduedd a chymorth am ddim er mwyn eu helpu i leihau eu biliau ynni. Gall y rhai sy'n bodloni meini prawf cymhwyso Nyth gael pecyn am ddim o fesurau effeithlonrwydd ynni a argymhellir yn dilyn asesiad o'r tŷ cyfan. Gallai'r rhain gynnwys boeler newydd, system gwres canolog neu inswleiddio.

Nod meini prawf iechyd newydd cynllun Nyth yw cefnogi pobl sy'n byw gyda chyflwr iechyd cymwys ac yn ennill incwm is sy'n fwy tebygol o ddatblygu salwch o ganlyniad i fyw mewn cartref oer. Rydym hefyd wedi rhoi sylw penodol i bobl ag anableddau, pobl hŷn a theluoedd â phlant ifanc er mwyn sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar y cynllun.

Meini Prawf Cymhwyso

Law yn llaw â'r meini prawf cyfredol i bobl sy'n cael budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd, dyma'r meini prawf iechyd ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd ynni'r cartref:

Rhaid i rywun sy'n byw yn y cartref fod:

- Yn byw gyda chyflwr anadlol, cyflwr cylchrediad y gwaed, neu gyflwr iechyd meddwl cronig. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - Clefyd anadlol (heintiau anadlol, broncoddarwasgiad mewn asthma, a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint)
 - Clefyd cylchrediad y gwaed (gan gynnwys clefyd cardiofasgwlaidd, strôc a thrawiad ar y galon)
 - Materion iechyd meddwl (gan gynnwys iselder, gorbryder, seicosis ac anhwylder deubegynol, dementia, anhwylderau deallusol a datblygu).
- Byw mewn eiddo nad yw'n ynni-effeithlon (graddfa'r Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) - D, E, F neu G - byddwn yn canfon hyn yn ystod yr alwad ffôn â'r cwsmer)
- Cartref a berchenogir neu sy'n cael ei rentu'n breifat (nid gan y Cyngor na Chymdeithas Dai). Bydd meini prawf ychwanegol yn berthnasol i landlordiaid preifat
- Yn byw ar incwm isel, islaw'r trothwyon diffiniedig.

Tystiolaeth o gyflwr iechyd

Bydd angen i'r cwsmer gadarnhau bod ganddo dystiolaeth o'i gyflwr iechyd megis presgripsiwn, pecyn meddyginiaeth, cynllun triniaeth neu lythyr apwyntiad neu atgyfeiriad gan y Meddyg Teulu/Ysbyty. Ni fydd angen darparu'r dystiolaeth hon ymlaen llaw. Os penderfynir bod y cwsmer yn gymwys, bydd ein haseswr yn edrych ar y dystiolaeth pan fyddant yn ymweld â'r cartref.

Trothwyon Incwm

Ceir amlinellid o'r trothwyon incwm ar gyfer y rhan fwyaf o gwsmeriaid isod. Mae'r rhain yn seiliedig ar gyfanswm incwm y cartref ar ôl costau tai.

Cyfansoddiad y cartref	Incwm blynyddol y cartref (ar ôl costau tai)	Incwm misol y cartref (ar ôl costau tai)
1 neu fwy o oedolion 18 oed a throsodd	£16,105	£1,342
1 neu 2 oedolyn ac un neu ddau dibynnydd	£21,352	£1,779
1 neu 2 oedolyn a thri dibynnydd	£23,100	£1,930
1 neu 2 oedolyn a phedwar dibynnydd neu fwy	£25,700	£2,140

Mae rhai grwpiau o bobl sy'n agored i niwed, sy'n treulio mwy na'r amser cyfartalog gartref, yn fwy tebygol o wynebu risg yn ystod y misoedd oeraf.

- Pobl hŷn (75 oed a throsodd)
- Teuluoedd â phlant ifanc (5 oed neu iau)
- Pobl ag anableddau (nam meddyliol neu gorfforol, sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu'r person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd)

I'r deiliad tai hynny sy'n byw gyda chyflwr iechyd cymwys, mae'r trothwy incwm yn cynyddu i £21,352 yn ar ôl costau tai gyda chynilion heb fod yn fwy na £16,000 i bobl hŷn 75 oed a throsodd.

Cyfansoddiad y cartref	Incwm blynyddol y cartref (ar ôl costau tai)	Incwm misol y cartref (ar ôl costau tai)
1 oedolyn neu fwy, gan gynnwys dibynnydd anabl neu berson hŷn 74 oed a throsodd neu blentyn 5 oed neu iau	£21,352 (Hefyd, i'r rhai 74 oed a throsodd, cynigion heb fod yn fwy na £16,000)	£1,779

Tystiolaeth

Yn ogystal â thystiolaeth o gyflwr iechyd fel yr amlinellir uchod, gall gwsmer ddangos ei fod yn gymwys ar gyfer y trothwy incwm ychwanegol drwy ddarparu pàs bws yn ôl disgrisiwn / i'r anabl, bathodyn glas, neu dystiolaeth ei fod wedi'i gofrestru â'r awdurdod lleol o dan adran 18 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bydd ein haseswyr yn edrych ar y dystiolaeth hon pan fyddant yn ymweld â'r cartref.

Sut y gallwch helpu?

Os ydych yn adnabod rhywun sydd ag un o'r cyflyrau iechyd cymwys a allai gael budd o'r cymorth sydd ar gael, gofynnwch iddo ffonio Nyth neu gallwch gysylltu â ni ar ei rhan os ydych yn teimlo y byddai cymorth ychwanegol o fudd iddo. Ni fydd angen unrhyw wybodaeth am eiddo nac incwm y cwsmer arnoch – byddwn yn asesu hyn gydag ef yn uniongyrchol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd aelod o dîm Nyth yn cynnal asesiad eiddo dros y ffôn. Os penderfynir nad yw'r eiddo yn ynni-effeithlon, byddwn yn cynnal asesiad incwm aelwyd.

Os bydd y cwsmer yn bodloni'r meini prawf incwm, byddwn yn trefnu i un o aseswyr Nyth ymweld â'i gartref er mwyn gweld pa welliannau effeithlonrwydd ynni y gallem eu darparu, am ddim, er mwyn gwresogi'r cartref yn fwy effeithlon a lleihau biliau ynni.

Rhywbeth i bawb

Os na fydd y cwsmer yn bodloni'r meini prawf, byddwn yn rhoi cyngor am ddim ar arbed ynni ac yn ei gyfeirio at gynlluniau eraill a all ei helpu.

Mwy o Wybodaeth

Mae gwybodaeth bellach am gynllun Nyth ar gael yn:

www.nyth.llyw.cymru

Rhadffon 0808 808 2244